**EOC-08-01 (cof)**

**Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

**Cofnodion**

| |
|---|
| Dyddiad: 28 Tachwedd 2001 |
| Amser: 9.30 am |
| Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Aelodau | Edwina Hart (Cadeirydd) | G•yr |
| | Lorraine Barret | De Caerdydd a Phenarth |
| | Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| | Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| | Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| Ymgynghorwyr i’r Pwyllgor | Will Bee | Y Comisiwn Hawliau Anabledd |
| | Kate Bennett | Y Comisiwn Cyfle Cyfartal |

| | | |
|---|---|---|
| Yn Cyflwyno i'r Pwyllgor | Sue Essex | Y Gweinidog dros yr Amgylchedd |
| | Tom Cassidy | Prif Weithredwr, CADW |
| | Teresa Rees | Comisiynydd Cymru, y Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| | Stacy Thornton | Cyfarwyddwraig y Gwasanaeth |
| | Brian Hartley | Cynorthwyo Lloches Cenedlaethol |
| | Martyn Jones | Gwasanaeth Cynorthwyo Lloches Cenedlaethol |
| | Martin Caton | Cadeirydd, y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig |
| | Julie Morgan | Y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig |
| | Mark Prisk | Y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig |
| | Chris Ruane | Y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig |
| | Bill Wiggan | Y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig |
| | Betty Williams | Y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig |
| | | Y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig |
| Swyddogion | Peter Gregory | Pennaeth y Gr•p Personél, Rheoli a Gwasanaethau Busnes |
| | Elisabeth Jones | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| | Russell Keith | Clerc y Pwyllgor |
| | James Owen | Is-glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig yr aelodau newydd, Val Loyd a Peter Rogers. Diolchodd y Cadeirydd i Christine Gwydder a Jonathan Morgan am y gwaith y maent wedi ei wneud ar ran y Pwyllgor. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Dr Mashuq Ally, Huw Lewis a Phwyllgor Cyfle Cyfartal yr Alban. Nododd y Cadeirydd fod Pwyllgor yr Alban yn gobeithio cyfarfod yn y Flwyddyn Newydd.
2. Oherwydd yr agenda lawn heddiw, hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai mater datblygu a gweithredu'r gwaith o sicrhau cyfle cyfartal trwy gyfrwng polisi caffael y Cynulliad a mater tâl y sawl sydd wedi ei benodi'n gyhoeddus yn cael eu hystyried yn y cyfarfod cyntaf yn y Flwyddyn Newydd. Cytunodd y pwyllgor y byddai'r cyfarfod cyntaf yn Ionawr yn cael ei ddefnyddio i orffen trafod pob mater arall sy'n weddill.
3. Rhoddodd y Cadeirydd y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar hynt y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Arweiniodd y rownd ddiweddar o benodiadau ar gyfer Cadeirydd ac aelodau Awdurdod Datblygu Cymru at benodi tri ymgeisydd benywaidd i Fwrdd yr Asiantaeth. Cytunodd y Cadeirydd i gael copïau o'r astudiaeth gwmpasu, a gynhyrchwyd gan yr Athro Teresa Rees, ar beth sy'n ysgogi'r rhai a benodir yn gyhoeddus, a'u rhoi i'r Pwyllgor. Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi ehangu'r staffio yn Uned Penodiadau Cyhoeddus y Cynulliad i'w galluogi i gyflwyno rhaglen o waith polisi ac i ddarparu cefnogaeth i roi cymorth i is-adrannau wrth iddynt reoli penodiadau. Bydd yr Uned Penodiadau Cyhoeddus yn gweithio gyda Teresa Rees i ddrafftio Cynllun a chytunodd y Cadeirydd i alluogi'r Pwyllgor i wneud sylwadau ar y cynllun fis Mawrth nesaf.
4. Hysbyswyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd fod y llythyrau canlynol wedi eu hanfon fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf:

- At y Gweinidog dros Addysg ar lansiad ymateb y Cynulliad i Ymholiad Stephen Lawrence ac ar anghenion plant anabl.
- At Weinidog y Swyddfa Gartref yn gwneud cais am gyfarfod anffurfiol gydag aelodau'r pwyllgor ar faterion ceisio lloches.
- At Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a'r Pwyllgor Addysg ynglí n â'r Ddeddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol.
- At Reolwyr Busnes y pleidiau ynglí n â hyfforddiant cydraddoldeb
- At Gadeiryddion y Pwyllgorau Rhanbarthol ynglí n â'r Comisiwn Hawliau Anabledd.
- At y Gweinidogion ar gyfer Iechyd ac Addysg ynglí n â'r Tasglu Hawliau Anabledd

1. Gwnaeth y Cadeirydd gais am bapur yn amlinellu'r cynigion a gynhwysir ym mesur Diogelwch Troseddau Gwrth-derfysgaeth yr Ysgrifennydd Cartref ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch goblygiadau posibl y ddeddfwriaeth.

**Eitem 2: Gweinidog dros yr Amgylchedd**

Papur: EOC-08-01(p.1)

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Sue Essex, arweiniad drafft Cadw ar Fynediad Corfforol i Adeiladau Hanesyddol, a elwir bellach yn ‘Goresgyn y Rhwystrau’. Mae’r ddogfen yn rhoi arweiniad ar sut y gellir gwneud adeiladau hanesyddol yn fwy hygyrch yn gorfforol, gan esbonio’r rhyngweithio rhwng deddfwriaeth gynllunio a gofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, ac mae’n rhoi enghreifftiau ymarferol o adeiladau sydd wedi’u haddasu ar gyfer pobl anabl.

2. Mae’r ddogfen arweiniol wedi’i diwygio yng ngoleuni’r ymgynghori, a hefyd cynnwys y sylwadau gan y Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC), Anabledd Cymru ac uned Polisi Cydraddoldeb y Cynulliad. Mae’r arweiniad yn ceisio manteisio ar arfer da a phrofiad o’r tu allan er ei bod yn bwysig cydnabod bod pob adeilad neu heneb yn unigryw. Drafft gweithio yw’r ddogfen a bwriedir cael cysylltiad pellach â DRC ac Anabledd Cymru.
3. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Mae’n bwysig bod naws arweiniad Cadw yn gadarnhaol i sicrhau y gellir gwneud cynnydd go iawn. Ar hyn o bryd, mae yna nifer o gyfosodiadau ac mae angen gweithio drwy’r rhain mewn ymgynghoriad â’r DRC, i sicrhau bod yr arweiniad yn gadarnhaol.
- Mae’n bwysig bod yr arweiniad yn codi ymwybyddiaeth ymysg darparwyr gwasanaeth a phobl anabl ar oblygiadau’r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.
- Cytunodd aelodau ei bod yn hanfodol y caiff adeiladau eu haddasu i fod yn hygyrch i bawb yn yr 21ain Ganrif. Efallai y bydd methu â gwneud hyn nid yn unig yn cadw rhai rhag mynd i mewn ond hefyd yn arwain at adeiladau nad ydynt yn ymarferol i’w defnyddio.
- Mae’n arbennig o bwysig y caiff allanfeydd argyfwng eu haddasu i alluogi pawb i adael adeiladau yn ddiogel.
- Mae’n bwysig bod pob aelod o staff Cadw yn enwedig y rhai sy’n delio â’r cyhoedd neu’r rhai sy’n gysylltiedig â’r diwygiadau i adeiladau rhestredig, yn ymwybodol o ofynion y Ddeddf ac o’r arweiniad sy’n cael ei gynhyrchu. Ni ddylai hyfforddiant gael ei gyfyngu i’r rhai sy’n delio ag adeiladau hanesyddol. Hysbyswyd y Pwyllgor bod hyfforddiant anabledd yn flaenoriaeth i’r sefydliad a chynllunnir rhaglen o hyfforddiant i warcheidwaid ac uwch staff a allai gael ei hestyn i bob aelod o staff. Cytunodd y Gweinidog i gynhyrchu nodyn ar y cynnydd a wneir yn hyfforddiant staff Cadw y flwyddyn nesaf. Cytunodd y DRC i godi mater hyfforddiant ar gyfer swyddogion cyngor sy’n cymryd rhan mewn trefniadau mynediad yn un o gyfarfodydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y dyfodol.
- Mae angen mabwysiadu ymagwedd ddychmygus tuag at drefniadau mynediad ac mae’n bwysig darparu ar gyfer pob person anabl wrth wneud trefniadau mynediad. Nododd y Gweinidog fod yr astudiaethau achos sy’n gysylltiedig â’r arweiniad yn dangos syniadau dychmygus, sydd yn cael eu datblygu ar gyfer mynd i’r afael â materion mynediad.
- Teimlai’r Pwyllgor fod gwybodaeth pobl anabl leol hefyd yn adnodd gwerthfawr wrth asesu newidiadau arfaethedig i wella mynediad i adeiladau ac awgrymodd y dylai Cadw dynnu sylw at hyn yn eu harweiniad.

2. Trafododd y Gweinidog drefniadau mynediad yn gyffredinol gyda’r Pwyllgor. Mae’n rhan o gylch gorchwyl Awdurdodau Lleol i ystyried rhwystrau ar y palmant a materion amgylcheddol lleol eraill. Ar hyn o bryd mae’r Gweinidog yn gweithio i sicrhau bod y cyfan o’r arweiniad sydd ar gael ar y materion hyn yn cael ei drosglwyddo i Awdurdodau Lleol i sicrhau bod ardaloedd cyhoeddus yn fwy hwylus.
3. Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Dylai cynigion cynllunio newydd gynnwys gofynion mynediad o’r cychwyn. Mae’n bwysig codi ymwybyddiaeth ymysg Awdurdodau Lleol ar effaith y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd ar gynigion cynllunio. Nododd y Cadeirydd fod yna faterion ynghylch y trefniadau cynllunio ar gyfer project adeilad y Cynulliad i’w hystyried.
- Amlygodd Aelodau broblemau arbennig yr oeddent yn ymwybodol ohonynt. Cytunwyd bod angen ymagwedd gadarnhaol tuag at fynediad ac roedd achos busnes cadarn dros hyrwyddo trefniadau mynediad da. Nododd y Gweinidog fod y Cynulliad yn gweithio i hyrwyddo arfer da i sicrhau bod busnesau yn ymwybodol o’r safon sy’n ofynnol ganddynt.
- Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru yn gofyn i’r materion hyn gael eu trafod mewn cyfarfod o’r Bartneriaeth Fusnes yn y dyfodol.

**Eitem 3: Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cyfle Cyfartal**

3.1 Cyflwynodd yr Athro Teresa Rees, y Comisynydd ar gyfer Cymru, adroddiad blynyddol y Comisiwn Cyfle Cyfartal (EOC) i’r Pwyllgor. Mae’r Comisiwn wedi gweithio tuag at flaenoriaethu cydraddoldeb i’r brif ffrwd mewn perthynas â'r Cynulliad a'r Gyfnewidfa Gydraddoldeb. Mae'r EOC hefyd yn lledaenu’r neges bod blaenoriaethu cydraddoldeb yn gwneud synnwyr busnes da. Mae ymchwil wedi’i chomisiynu ar effaith darpariaeth Deddf Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rhoi ‘ystyriaeth briodol’ i gyfle cyfartal. Yn ogystal, mae’r Comisiwn wedi gweithio gyda’r Cynulliad ar gyflog cyfartal. Lawnsiwyd yr adroddiad Cyflog Cyfiawn yn Stadiwm y Mileniwm ac mae ymchwil i’r Bwlch Cyflog yng Nghymru wedi’i gynhyrchu yn ddiweddar. Yn ogystal mae’r EOC wedi cynhyrchu geirfa o dermau cydraddoldeb yn Gymraeg a Saesneg er gwybodaeth gyffredinol.

2. Mae’r Comisiwn yn defnyddio ei adnoddau cyfyngedig drwy drosglwyddo arbenigedd ledled Cymru a thrwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau megis TUC Cymru, Clymblaid Cenedlaethol Merched Cymru, Chwarae Teg a’r Gyfnewidfa Gydraddoldeb.
3. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Mae cyfran siomedig o uchel o ymholiadau i wasanaethau cyngor arbenigol y Comisiwn yn gysylltiedig â merched sydd yn colli eu swyddi am eu bod yn feichiog. Mae yna hefyd ganran sylweddol sy’n gysylltiedig ag ymholiadau ar hawliau cyflogi merched. Mae’r EOC mewn trafodaethau â’r Ganolfan Cynghori i sicrhau eu bod yn ymwybodol o’r agenda cyfle cyfartal. Mae canlyniadau tribiwnlys cyflog hefyd yn

wahanol yng Nghymru i’r hyn ydynt yn Lloegr gyda mwy o achosion yn cael eu tynnu yn ôl yng Nghymru.

- Cafodd aelodau eu siomi nad oedd mwy o wybodaeth ar waith sefydliadau datganoledig yn adroddiad blynyddol DU yr EOC.
- Bu cynnydd yn adnoddau’r EOC yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er bod y swm yn llai nag a ddisgwyliwyd.
- Croesawodd y Pwyllgor adroddiad y Comisiwn ‘Ffyrdd tuag at Gydraddoldeb yng Nghymru’. Cytunodd y comisiwn i fabwysiadu arweiniad arfer gorau’r Cynulliad ar gyhoeddi’r adroddiadau.
- Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor mai hon oedd blwyddyn olaf yr Athro Teresa Rees fel Comisiynydd Cymru a diolchodd iddi am ei holl waith.

**Eitem 4: Cyflog Cyfartal**

Papur: EOC-08-01(p.2) ac EOC-08-01(p.2a)

1. Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor ar gynlluniau’r Cynulliad ar gyfer gweithredu’r gweithgor ar gynllun gweithredu cyflog cyfartal a strategaeth y wasg. Cymerwyd yr camau canlynol hyd yn hyn:

- Mae ochr Undeb Llafur y Cynulliad yn ymrwymedig i weithio ar y cynllun gweithredu cyfle cyfartal.
- Mae adolygiadau cyflog wedi dechrau yng Nghyrff Cyhoeddus Noddedig y Cynulliad (ASPB) ac mae’n bwysig bellach i edrych ar y materion polisi ehangach megis cydbwysedd gwaith-bywyd. Tanlinellodd y Cadeirydd bwysigrwydd yr Archwiliad Cyflog Cyfartal drwy ddefnyddio mesurau cyffredin i sicrhau bod ASPB yn ymgymryd â gweithdrefn safonol.
- Mae llythyrau wedi’u hanfon at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), yn amlygu’r angen i sicrhau gweithredu safon cydraddoldeb llywodraeth leol ledled Cymru ac at Brif Weinidog Cymru, yn gofyn am gyfarfod i drafod nifer o faterion a godwyd yn y cynllun gweithredu ar gyflog cyfartal.
- Yn ogystal, mae llythyrau wedi’u hanfon at Jane Hutt AC a Jane Davidson AC, yn ymwneud â’u meysydd cyfrifoldeb ac â beth y gellir ei wneud o ran cyflog cyfartal.
- Mae’r cadeirydd wedi siarad â’r Is-adran Bersonél ar ganlyniadau cylch gwaith cyflog y Cynulliad i ASPB’s.

1. Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Mae’n bwysig bod cynlluniau cydraddoldeb annibynnol o ansawdd dda yn cael eu gweithredu yn yr ASPB. Mae’r EOC ar gael i ymgynghori â hwy ar gynlluniau adolygu cyflog ond nid yw’n gallu archwilio ansawdd adolygiadau cyflog. Ni all yr EOC gadarnhau p’un a yw cynllun wedi ei weithredu yn gywir felly mae’n bwysig y gwneir asesiad ansawdd annibynnol ar gynlluniau eleni.

- Cynigodd Cadeirydd y gweithgor, David Melding, y dylid cael lansiad ffurfiol o fesurau cyfle cyfartal y Cynulliad ar 8 Mawrth i gyd-fynd â Diwrnod Rhyngwladol y Merched. Cytunodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig clymu'r lansiad â phenderfyniad cyfarfod llawn ar gyflog cyfartal ar 7 Mawrth. Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai'r gweithgor yn cyfarfod ym mis Rhagfyr ac y byddai person enwog yn cymryd rhan yn y lansiad.
- Uned Polisi Cydraddoldeb yw prif gorff y Cynulliad ar gyflog cyfartal ar hyn o bryd. Gwnaeth y Cadeirydd gais am bapur yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar strategaeth y wasg yn y Flwyddyn Newydd.
- Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai cyllideb ar gyfer y cynllun gweithredu yn cael ei ddyrannu cyn gynted ag y byddai cynllun busnes ar gael.
- Hysbysodd yr EOC y Pwyllgor bod ymchwil i'r bwlch cyflog yng Nghymru wedi ei lansio yr wythnos diwethaf ac y byddai'n cael ei ddosbarthu i Aelodau. Mae'r ymchwil yn nodi pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth plant ysgol ar sut y mae'r penderfyniadau y maent yn eu gwneud ar lefel TGAU yn gallu dylanwadu ar eu dewisiadau o waith yn y dyfodol.
- Gwnaeth y Cadeirydd gais i'r Pwyllgor dderbyn y newyddion diweddaraf yn rheolaidd ar y cynnydd a wneir ar gyflog cyfartal. Diolchodd y Cadeirydd i'r EOC am y rôl sicrwydd ansawdd y maent yn ei chynnal wrth weithredu cyflog cyfartal ledled Cymru.

**Eitem 5: Ceiswyr Lloches**

Papur: EOC-08-01 (t.3)

1. Croesawodd y Cadeirydd Stacy Thornton, Cyfarwyddwraig newydd y Gwasanaeth Cynorthwyo Ceiswyr Lloches Cenedlaethol (NASS), i'r cyfarfod. Mae NASS yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd yn y Swyddfa Gartref. Dyma'r prif faterion sy'n codi o gyhoeddiadau'r Ysgrifennydd Cartref:

- Bydd mwy o reolaeth llywodraeth ganolog dros y broses ceisio lloches.
- Mae canlyniadau'r adolygiad gwasgaru yn nodi, er bod y gwaith gwasgaru ceiswyr lloches o dde ddwyrain Lloegr wedi bod yn llwyddiannus, nid yw wedi gweithio ar sail y DU.
- Gallai'r broses o wasgaru trwy wasanaethau gael ei rheoli'n well.

1. Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Byddai NASS yn gwneud trefniadau gyda'r sector gwirfoddol a'r awdurdodau lleol ar gyfer rheoli gwasanaeth sefydlu lloches yng Nghymru.
- Mae rôl y Cyngor Ffoaduriaid yng Nghymru yn cael ei adolygu gan NASS ar hyn o bryd fel rhan o adolygiad ledled y DU o'r gwasanaethau a'r llinellau cymorth a gynigir i geiswyr lloches.
- Diben canolfannau sefydlu yw sicrhau y darperir cyfarwyddyd cymorth a llety i bob ceisiwr lloches mewn iaith y maent oll yn ei deall. Bydd llety sy'n briodol i anghenion y ceisiwr lloches yn cael ei asesu a rhoddir cymorth wrth gwblhau ffurflen budd-daliadau.

- Bydd maint y canolfannau sefydlu yn seiliedig ar y nifer o geiswyr sy’n mynd trwy’r ganolfan. Yng Nghymru rhagwelir mai nifer fach fydd hyn. Ni fydd elfen o gadw i’r canolfannau sefydlu er y bydd gofyniad preswyl sydd yn effeithio ar gais budd-dal y ceisiwr lloches am fudd-daliadau.
- Bydd y sector gwirfoddol yn cymryd rhan agos mewn gwaith yn y canolfannau sefydlu. Caiff cyngor cyfreithiol ei ryddhau yn dilyn gwasgaru yn hytrach nag yn y canolfannau sefydlu i sicrhau bod gan geiswyr lloches un ymgynghorydd cyfreithiol o gymharu â nifer er y rhoddir esboniad o’r gyfraith berthnasol.
- Caiff ceiswyr lloches gyngor clir a pherthnasol ar y lleoliad y cânt eu gwasgaru iddo ac ar y broses y byddant yn ymgymryd â hi.
- Mae’n bwysig fod canolfannau sefydlu yn ddiogel. Ar hyn o bryd mae NASS yn dwyn i ystyriaeth y ffaith y gall canolfannau fod yn agored i ymosodiad.
- Mae NASS wedi cyhoeddi targedau ar hyd arhosiad ceiswyr lloches yn y canolfannau. Dylid gwneud penderfyniad cychwynnol o fewn 2 fis ac ar ôl apêl dylid gwneud penderfyniad mewn 4 mis.
- Bydd NASS yn rhoi ystyriaeth i drosglwyddo ceisiadau rhwng canolfannau sefydlu er y gallai ymestyn y broses gyffredinol.
- Mae symud ceiswyr lloches i ganolfannau llety wedi ei gynllunio i leihau’r pwysau ar awdurdodau lleol i roi cartref i geiswyr lloches ac i ddarparu gwasanaethau iddynt.
- Ni fydd NASS o reidrwydd yn tanysgrifennu’r costau a wariwyd gan y Consortiwm Cymru Gyfan. Mae NASS wedi talu £100,000 fel grant galluogi i awdurdodau lleol ac mae’r Cynulliad wedi rhoi arian tuag at gostau iechyd ac addysg ceiswyr lloches.
- Caiff Cardiau Smart eu cyflwyno fel rhan o gynigion yr Ysgrifennydd Cartref. Byddant yn cymryd lle’r llythyr cydnabod safonol ac ni fydd gofyniad iddynt gael eu cario drwy’r amser. Gellir defnyddio’r cardiau ar gyfer sefydlu prawf adnabyddiaeth pan fydd ymgeisydd llwyddiannus yn gwneud cais am rif Yswiriant Gwladol ond ni fydd yn ofynnol iddo ef/iddi hi ei gadw.
- Ar hyn o bryd mae NASS yn edrych i mewn i’r trefniadau ar gyfer darparu arian i geiswyr lloches. Ni fydd gan y Cerdyn Smart opsiwn credyd neu ddebyd ond gellir ei ddefnyddio fel prawf adnabod wrth y man dosbarthu arian.
- Nid yw NASS wedi penderfynu ar y dulliau ar gyfer dwyn y trefniadau Siop un Cam yn eu blaen.
- Cytunodd NASS i ddosbarthu’r Papur Gwyn ar y newidiadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref pan y’u rhyddheir.

**Eitem 6: Teithwyr Sipsiwn**

Papur: EOC-08-01 (t.4)

1. Cyflwynodd y Cadeirydd y papur sy’n amlinellu’r cylch gorchwyl drafft ar gyfer yr ymchwiliad i Deithwyr Sipsiwn.
2. Cafwyd trafodaeth ar y pwyntiau canlynol:

- Caiff tystiolaeth ei chymryd mewn cyfarfodydd Pwyllgor arferol, er y caiff y cyfarfodydd hyn eu cynnal ledled Cymru.

- Cytunodd y Pwyllgor fod penodi ymgynghorydd arbenigol yn hanfodol i ganolbwyntio'r ymchwiliad ar y materion pwysig.
- Cytunodd y Cadeirydd i gynhyrchu adroddiad ysgrifenedig ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor yn y dyfodol ar gynnydd materion eraill i sicrhau y caiff digon o amser ei ddyrannu i'r ymchwiliad.
- Cytunwyd i wahodd Niall Crowley, Prif Weithredwr Awdurdod Cydraddoldeb Iwerddon, i siarad yn anffurfiol yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.
- Caiff Pwyllgorau Rhanbsarthol eu gwahodd i gymryd tystiolaeth ar ran y Pwyllgor Cyfle Cyfartal er ei bod yn bwysig bod y Pwyllgor hwn yn cymryd tystiolaeth o bob cwr o Gymru. Cytunodd yr aelodau fod ymweliadau safle yn bwysig i sicrhau bod y Pwyllgor yn ymatebol i agenda'r Teithwyr Sipsiwn.
- Byddai sefydlu proses wybodaeth ddwy ffordd gyda Llywodraeth y DU ar faterion yn ymwneud â Theithwyr Sipsiwn yn fanteisiol i sicrhau y gallai Whitehall ddelio â materion nad ydynt wedi'u datganoli.
- Cytunwyd ar y cylch gorchwyl drafft a chafodd y diwygiadau eu hamlinellu yn y cyfarfod. Gwnaeth y Cadeirydd gais y byddai cylch gorchwyl diwygiedig yn cael ei gynhyrchu ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor mewn ymgynghoriad â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol.

**Eitem 7: Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig: Adroddiad ar Allgáu Cymdeithasol**

1. Cyflwynodd Martyn Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig (WAC) yr Aelodau i'r Pwyllgor. Penderfynodd y WAC ym 1999 y byddent yn cynnal ymchwiliad i allgáu cymdeithasol yn dilyn y broses o ddatganoli oherwydd nid oedd gan Gymru Uned Allgáu Cymdeithasol. Mae'r adroddiad yn nodi cyfrifoldebau trawsbynciol rhwng y Cynulliad, llywodraeth leol a Thí 'r Cyffredin. Mae'r adroddiad yn nodi'r angen am ymagwedd o'r gwaelod i fyny er mwyn mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol yng Nghymru.
2. Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Byddai argaeledd ystadegau ar gyfer Cymru gyfan yn ddefnyddiol ar gyfer mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ac ar gyfer comisiynu ymchwil i feysydd penodol sy'n peri pryder. Mae'r WLGA wedi sefydlu uned ystadegau ac mae ystadegau sy'n seiliedig ar ryw wrthi'n cael eu cynhyrchu.
- Mae'r adroddiad yn nodi enghreifftiau o arfer da o Weriniaeth Iwerddon mewn perthynas â'r system budd-daliadau. Mae'r system bresennol yn dangos diffyg hyblygrwydd a all effeithio yn benodol ar bobl anabl.
- Mae'r adroddiad yn archwilio allgáu ariannol o ganlyniad i gau swyddfeydd post a banciau yng Nghymru wledig. Nodwyd Undebau Credyd fel ased benodol i'r rhai a eithriwyd gan y gwasanaethau hyn.
- Mae'n anodd monitro sut y mae llywodraeth y DU yn dwyn yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad ymlaen oherwydd cylch gwaith sylweddol WAC. Mae'r WAC yn bwriadu canolbwyntio ar ymateb llywodraeth y DU i'r argymhellion ar allgáu ariannol gan nad yw hwn yn fater datganoledig.
- Mae'r WAC wedi gwneud cais am gyflwyniad ysgrifenedig gan Gymdeithas y Plant yn gofyn am resymau pam ei bod yn tynnu allan o Gymru. Os na fydd y WAC yn fodlon â'r ymateb, byddant yn gofyn i'r Gymdeithas fynychu un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol. Cytunodd

y WAC i ddosbarthu copi o gyflwyniad ysgrifenedig Cymdeithas y Plant i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Yn ogystal, caiff aelodau'r cyfle i fynychu a dylanwadu ar y cyfarfod gyda Chymdeithas y Plant. Cytunodd y Cadeirydd i hysbysu Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y gallai'r cyfle hwn fod ar gael.

- Bydd y WAC yn cynnal ymchwiliad i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn y Flwyddyn Newydd. Bydd yr ymchwiliad yn cynnwys archwiliad i'r broses o ddarparu gwasanaethau ar gyfer troseddwyr ifanc ar ôl iddynt adael y carchar. Bydd yr ymchwiliad yn ystyried y system budd-daliadau a'r effaith y mae'n ei chael ar ddigartrefedd yng Nghymru. Efallai y gofynnir i Bwyllgor y Cynulliad gyfrannu gwybodaeth i'r Ymchwiliad.
- Byddai'r WAC yn croesawu strategaeth gan y Cynulliad i gynyddu nifer y bobl sy'n gwneud cais am fudd-daliadau yng Nghymru.
- Byddai'n anodd ailnegodi'r fformiwla Barnett er bod angen ymagwedd fwy resymegol yn enwedig mewn perthynas â'r posibilrwydd o ddatganoli rhanbarthol yn Lloegr.
- Cytunwyd y byddai cydweithio pellach rhwng y Pwyllgorau yn ddefnyddiol, yn enwedig o ran yr ymchwiliad i Deithwyr Sipsiwn.

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Papur: EOC-07-01 (cof)

1. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf gydag un diwygiad. Caiff paragraff 9.5, pwynt bwled 2 ei newid i '<u>Mae'n bwysig fod y DRC yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo yn effeithiol ac yn unol â'r dyletswyddau a amlinellir yn Neddf yr Iaith Gymraeg</u>.'

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00pm

**Pwyntiau gweithredu sy'n deillio o gyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal EOC-08-01, 28 Tachwedd 2001**

| **CAM GWEITHREDU** | **ASIANT** | **DYDDIAD** |
|---|---|---|
| Papurau ar bolisi caffael y Cynulliad a chydnabyddiaeth penodeion cyhoeddus i'w hystyried yng nghyfarfod cyntaf y Flwyddyn Newydd. | Is-adrannau Cyllid a Chaffael | |

| | | |
|---|---|---|
| Cytunodd y Cadeirydd i sicrhau bod copïau o'r astudiaeth gwmpasu ar y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth sydd ar gael i'r Pwyllgor. | Ysgrifennydd/Cadeirydd y Pwyllgor | |
| Cytunodd y Cadeirydd i roi cyfle i'r Pwyllgor wneud sylwadau ar y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth fis Mawrth nesaf. | Ysgrifennydd/Cadeirydd y Pwyllgor | |
| Papur yn amlinellu'r cynigion a gynhwysir ym mesur Diogelwch Troseddau Gwrth Derfysgaeth yr Ysgrifennydd Cartref ar gyfer y cyfarfod nesaf. | EPU | |
| Cytunodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd i gynhyrchu nodyn ar ddilyniant hyfforddiant staff CADW flwyddyn nesaf | CADW | |
| Llythyr gan y Cadeirydd at Brif Weinidog Cymru yn gofyn i'r materion a godwyd mewn perthynas â threfniadau mynediad gael eu trafod yn un o gyfarfodydd y Bartneriaeth Fusnes yn y dyfodol. | Ysgrifennydd/Cadeirydd y Pwyllgor | |
| Penderfyniad ar gyflog cyfartal yn y cyfarfod llawn ar 7 Mawrth | Cadeirydd | |
| Papur diweddaru ar strategaeth y wasg ar gyflog cyfartal yn y Flwyddyn Newydd | EPU | |

| | | |
|---|---|---|
| NASS i ddosbarthu'r Papur Gwyn ar y newidiadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref ar geiswyr lloches. | NASS | |
| Penodi ymgynghorydd arbenigol ar gyfer yr ymchwiliad i Deithwyr Sipsiwn. | Ysgrifennydd y Pwyllgor | |
| Adroddiad ysgrifenedig y Gweinidog/Cadeirydd ar gyfer pob cyfarfod | EPU/Ysgrifennydd y Pwyllgor. | |
| Gwahodd Niall Crowley, Prif Weithredwr Awdurdod Cydraddoldeb Iwerddon, i siarad yn anffurfiol â'r Pwyllgor. | Ysgrifennydd y Pwyllgor | |
| Cylch Gorchwyl diwygiedig ar yr ymchwiliad i Deithwyr Sipsiwn ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor. | Ysgrifennydd y Pwyllgor | |
| Y Pwyllgor ar Faterion Cymreig i ddosbarthu copi o gyflwyniad ysgrifenedig Cymdeithas y Plant i'r EOC. | WAC | |
| Y Cadeirydd i hysbysu Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y gallai fod cyfle i drafod y ffaith bod Cymdeithas y Plant wedi tynnu allan o Gymru. | Ysgrifennydd/Cadeirydd y Pwyllgor | |